Senedd Cymru
**Y Swyddfa Breifat**

# **Adolygiad o'r Fframwaith Rhyngwladol** – Adroddiad 2026

Mawrth 2026

www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

# Cynnwys

Cyflwyniad ... 3

Rhagair y Llywydd ... 3

Diben yr adroddiad ... 4

Crynodeb o'r dull gweithredu ... 5

Trefniadau adrodd ... 7

Canlyniadau a chasgliadau ... 8

Enghreifftiau ... 9

Rhannu a chaffael arferion gorau yn rhyngwladol ... 9

Gweithgarwch dan arweiniad Aelodau – hybu arloesedd y Senedd ... 10

Cynnal digwyddiadau ymgysylltu rhyngwladol yn y Senedd ... 13

Gwaith ar rwydweithiau'r DU a'r UE ... 14

Gwaith pwyllgorau’r Senedd ... 15

# Cyflwyniad

## Rhagair y Llywydd

> *"Mae bod yn sefydliad rhyngwladol uchel ei barch yn rhan bwysig o fod yn ddeddfwrfa genedlaethol, gan gyfrannu at gyfnewid gwybodaeth ac elwa o hyn, dod o hyd i gynghreiriaid a chynyddu'r dylanwad y gall y Senedd ei gael drwy waith craffu a chynrychiolaeth."* ***Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar Waith Craffu Allanol (2021)***

Wrth i ni nesáu at ddiwedd y Chweched Senedd hon, hoffwn fyfyrio ar ein gwaith Ymgysylltu Rhyngwladol yn ystod cyfnod sydd wedi bod yn un prysur a chynhyrchiol.

Rydym wedi parhau i ddangos ein bod yn senedd ifanc ond arloesol, yn un sy'n edrych tuag allan, yn hyderus ynghylch ein lle a'n pwysigrwydd yn y byd, a chennym stori dda i'w hadrodd.

Rydym wedi grymuso ein Haelodau drwy gyfleoedd niferus; boed hynny drwy gynnal cynhadledd flaenllaw yma, sbarduno gwaith i sefydlu rhwydwaith LHDT+ newydd, neu gymryd rhan mewn cynadleddau deallusrwydd artiffisial yn Asia i ddysgu am arferion gorau yn rhyngwladol, gan ddangos ein Senedd ninnau ar ei gorau bob amser.

Rwy'n arbennig o falch o'r ffordd y mae canolbwyntio ar fusnes y Senedd wedi llywio ein gwaith ymgysylltu allanol rhagweithiol yn ystod y tymor hwn. Drwy hynny, trefnwyd rhaglen o ymweliadau â ffocws penodol dan arweiniad y Dirprwy Lywydd a minnau – yng nghwmni Cadeiryddion Pwyllgorau ac Aelodau o'r Senedd – â seneddau Gwlad yr Iâ, Baden-Württemberg a'r Dáil (Iwerddon).

Hoffwn yn awr gofnodi fy niolch i'r Aelodau hynny sydd wedi rhoi o'u hamser i gymryd rhan mor frwdfrydig yn ein rhwydweithiau rhyngwladol, i Gadeiryddion ac Aelodau Pwyllgorau'r Senedd, yn ogystal â swyddogion y Comisiwn sydd wedi cefnogi ein gwaith rhyngwladol.

Rwy'n credu'n gryf fod proffil ac enw da rhyngwladol y Senedd wedi gwella yn ystod y tymor seneddol hwn a bod sylfaen gref yn awr i wella hynny ymhellach yn ystod yr hyn a fydd, heb os nac oni bai, yn Seithfed Senedd gyffrous – Senedd a fydd yn edrych ac yn teimlo'n wahanol iawn i unrhyw un arall dros y chwarter

canrif diwethaf, a Senedd a fydd yn ennyn diddordeb o’r newydd o bob cwr o'r byd yng Nghymru ac yn ein democratiaeth.

## Diben yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn trafod sut mae'r fframwaith y cytunodd y Comisiwn arno wedi helpu i lywio’r gweithgarwch rhyngwladol o fewn cwmpas gwaith y Comisiwn.

Diben y fframwaith oedd sicrhau atebolrwydd, eglurder a chyfeiriad o ran gweithgarwch seneddol rhyngwladol a gefnogir gan Gomisiwn y Senedd. Mae wedi galluogi'r Comisiwn i ddangos sut rydym yn gweithio tuag at gyflawni'r canlyniadau a nodwyd.

Mae'r fframwaith yn ffordd o alluogi gweithgarwch rhyngwladol i gyd-fynd â nodau strategol y Comisiwn, gan gynnwys darparu cymorth seneddol rhagorol sy’n canolbwyntio ar gefnogi’r Aelodau, ymateb i newid cyfansoddiadol, gan gynnwys cryfhau rhwydweithiau a dysgu rhyngsefydliadol a gwella enw da'r Senedd.

Sefydlwyd model tîm integredig ar draws meysydd gwasanaeth i wella ein prosesau cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth mewnol, ac i’n galluogi i fynd ati mewn modd strategol i gydgysylltu a chysoni’r gwaith rhyngwladol â’r egwyddorion a’r amcanion y cytunwyd arnynt.

# Crynodeb o'r dull gweithredu

**Mae’r fframwaith yn seiliedig ar yr egwyddorion y bydd ein gweithgareddau rhyngwladol:**

**1.** Yn canolbwyntio ar fusnes seneddol, gan alluogi’r Senedd i gyflawni ei swyddogaeth graidd, sef cynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl, drwy wella’r broses o gyfnewid gwybodaeth, syniadau a phrofiad; ac

**2.** Yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd meithrin enw da sefydliadol a rhyngwladol y Senedd drwy ymgysylltu a chydweithio, pa un a yw’r gwaith hwnnw’n cael ei arwain gan Aelodau neu bwyllgorau, ar lefel swyddogion neu rhwng Seneddau.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o weithrediad y fframwaith ac yn rhoi enghreifftiau. Mae hefyd yn tynnu sylw at y mathau o weithgarwch sy'n adlewyrchu’r egwyddorion a’r amcanion sydd wrth wraidd y fframwaith.

Mae hynny’n rhoi darlun clir o sut mae gweledigaeth y fframwaith fel y'i nodwyd gan Gomisiwn y Senedd yn cael ei gwireddu.

Mae adroddiadau manwl ar gael ar gyfer pob un o'r gweithgareddau a hwylusir gan y Comisiwn.

## Gweithredu

**1.** Gwelwyd newid sylfaenol yn ystod y Chweched Senedd tuag at ddull mwy integredig o gydgysylltu gweithgarwch rhyngwladol a gefnogir gan Gomisiwn y Senedd, cyfarwyddiaethau a swyddogion y Comisiwn.

Rydym yn parhau i ddarparu cymorth i rwydweithiau rhyngwladol fel Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) a Chynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA), ond rydym wedi ailwampio’r trefniadau er mwyn gwella amrywiaeth yr aelodau sy'n cymryd rhan a'r cysylltiadau rhwng gwaith y rhwydweithiau hyn a phwyllgorau/busnes y Senedd lle bo hynny’n briodol.

Mae **enghreifftiau** o hynny’n cynnwys yr adolygiad sylweddol o reolau ein Cangen CPA er mwyn sicrhau cydbwysedd rhywedd ar y Pwyllgor Gweithredol yn ogystal â dulliau i sicrhau cyfranogiad ehangach yn y cyfleoedd sydd ar gael

i'r Aelodau. Mae ffocws mwy strategol i waith ein cangen BIPA, sy'n cyfrannu at fusnes ehangach y Senedd; gan gynnwys rhoi tystiolaeth i waith y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon.

**2.** Rhoddwyd sylw i sicrhau bod ymweliadau a gweithgarwch mewnol ac allanol yn cynnig cynifer o gyfleoedd â phosibl i Aelodau o'r Senedd gasglu tystiolaeth a gwybodaeth i gefnogi busnes y Senedd, hybu gwaith y Senedd a dysgu a datblygu mewn modd sy'n uniongyrchol berthnasol i'w rolau o ddydd i ddydd.

Mae **enghreifftiau** o hynny'n cynnwys gwaith ar draws gwasanaethau i gefnogi ymgysylltiad Cadeiryddion y Pwyllgorau a'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd â Llysgenhadon yr UE a Senedd Ewrop; ymweliadau allanol gan ddirprwyaethau a oedd yn cynnwys y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd a Chadeiryddion Pwyllgorau â Gwlad yr Iâ, Iwerddon a Stuttgart.

**3.** Mae gweithgarwch o dan y fframwaith wedi rhoi cyfle i'r Aelodau hybu gwaith y Senedd mewn meysydd allweddol o ran arloesi, megis cynwysoldeb seneddol, amrywiaeth o ran rhywedd, deallusrwydd artiffisial ac ymgysylltu â phobl ifanc.

Mae **enghreifftiau** o hynny'n cynnwys sefydlu Cawcws Menywod y Senedd, cyfranogi, cyfnewid gwybodaeth yn rhyngwladol o ran defnyddio deallusrwydd artiffisial a chymryd rhan yn y gwaith o sefydlu rhwydwaith LHDTC+.

**4.** Wrth i strwythurau newydd ddod i'r amlwg rhwng y DU a'r UE, mae cydweithio o dan y fframwaith gan swyddfa'r Senedd ym Mrwsel a'r tîm cysylltiadau rhyngwladol wedi galluogi'r Aelodau i wneud yn fawr o'r cyfleoedd i Aelodau godi materion sydd o bwys i Gymru a dinasyddion Cymru yn y trafodaethau parhaus hyn.

Mae **enghreifftiau** o hynny'n cynnwys cynnal Grŵp Cyswllt y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2022, a ddaeth ag Aelodau etholedig ac arweinwyr rhanbarthol a lleol o wahanol rannau o'r UE a'r DU i'r Senedd, a lansiad llwyddiannus adroddiad Sioc Ddiwylliannol y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ym Mrwsel, sef adroddiad ar effaith Brexit ar y sector diwylliant yng Nghymru.

**5.** Mae digwyddiadau rhyngwladol a gwaith cysylltiadau rhyngwladol wedi bod yn rhan amlwg o waith Pwyllgorau a Chyfarfodydd Llawn y Senedd yn ystod y Chweched Senedd – gwaith ar faterion rhyngwladol arwyddocaol fel Wcráin, Israel-Gaza, cytundebau masnach ryngwladol newydd, hawliau dinasyddion yr UE yng Nghymru a'r berthynas rhwng y DU a'r UE. Drwy gydgysylltu'r gwaith hwn yn well drwy'r fframwaith, rydym wedi sicrhau ymateb cydgysylltiedig i ddigwyddiadau allanol.

**Er enghraifft**, ymatebion cydgysylltiedig i'r ymosodiad ar Wcráin gyda chymorth ar gyfer digwyddiadau, eitemau busnes a gweithgarwch y pwyllgorau ar Wcráin a defnyddio ymweliadau mewnol ac allanol i hybu gwaith pedwar o bwyllgorau'r Senedd ar y berthynas rhwng y DU a'r UE.

Mae'r dull mwy integredig hwn wedi cyflawni nifer o ganlyniadau pwysig i'r Senedd yn unol â'r amcanion a nodir yn y fframwaith, ond mae heriau o hyd y bydd angen i'r Seithfed Senedd eu hystyried. Yn eu plith mae:

a. Sicrhau bod grwpiau'r pleidiau a chyrff eraill y Senedd yn parhau i gefnogi Aelodau o'r Senedd i sicrhau bod ganddynt ddigon o amser a chapasiti i wneud gwaith rhyngwladol;

b. Sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu neilltuo i gyflawni uchelgeisiau ac amcanion unrhyw fframwaith rhyngwladol newydd y cytunir arno.

## Trefniadau adrodd

Yn sgil mabwysiadu'r fframwaith, mae tudalen bellach ar gael ar wefan y Senedd sy'n cynnig **canolbwynt ar gyfer gwaith rhyngwladol**.

Mae'r dudalen yn ffynhonnell gyfoethog a hygyrch o adroddiadau ac erthyglau. Mae hyn yn adlewyrchu'r ymrwymiad yn y fframwaith i sicrhau bod gennym brosesau cydgysylltiedig ar gyfer adrodd yn ôl mewn ffyrdd ystyrlon ar weithgareddau i lywio busnes y Senedd a chodi proffil ein gwaith rhyngwladol gyda rhanddeiliaid a sefydliadau allanol.

Mae'n cynnwys manylion ynghylch gweithgareddau'r Aelodau, gan gynnwys adroddiadau, ac yn rhoi trosolwg o weithgareddau rhyngwladol ledled gwasanaethau'r Comisiwn.

Bydd y strwythur adrodd yn cael ei adolygu wrth i'r Senedd newid i dymor byrrach o 4 blynedd ar ddechrau'r Seithfed Senedd.

## Canlyniadau a chasgliadau

Mae'r fframwaith wedi cynnig strwythur gwerthfawr ar gyfer cydgysylltu gweithgarwch rhyngwladol y Comisiwn, ac mae wedi galluogi'r Senedd i wneud yn fawr o'r cyfleoedd i rannu a chaffael arferion gorau yn rhyngwladol, codi proffil y Senedd a dylanwadu ar benderfyniadau allanol sy'n effeithio ar Gymru a'i dinasyddion.

Mae'r enghreifftiau a nodir yn yr adroddiad hwn yn dangos bod gwaith o dan y fframwaith rhyngwladol yn y Chweched Senedd wedi cyflawni nifer o ganlyniadau pwysig ac wedi galluogi'r Senedd i ymateb yn effeithiol i dirwedd ryngwladol ddeinamig sy'n newid o hyd.

Mae parodrwydd a brwdfrydedd Aelodau o'r Senedd i gymryd rhan yn y gwaith hwn a'i ddatblygu yn tystio i'r pwys a roddir ganddynt ar ymgysylltu rhyngwladol a'r gwerth a'r budd y maent yn eu cael ohono.

Mae'r Senedd wedi meithrin enw da fel partner adeiladol a phwysig. Mae hyn yn ei dro wedi cynnig cyfleoedd newydd i Aelodau o'r Senedd i godi materion sydd o bwys i ddinasyddion Cymru ar lwyfan rhyngwladol.

Yn y Seithfed Senedd, bydd yn bwysig sicrhau na chollir y momentwm y mae'r gwaith a gwblhawyd o dan y fframwaith rhyngwladol hwn wedi'i greu. Bydd yn hollbwysig sicrhau digon o gapasiti i gyflawni uchelgeisiau'r Senedd newydd.

Drwy gydol ei hanes, mae'r Senedd wedi bod yn sefydliad sy'n edrych tuag allan ac sy'n awyddus i ddysgu o brofiad eraill a hybu ei waith dramor. Mae gwaith yn y Chweched Senedd wedi atgyfnerthu'r uchelgais hwnnw ac wedi dangos gwerth parhaus ymgysylltu rhyngwladol er mwyn hybu buddiannau'r Senedd a phobl Cymru.

# Enghreifftiau

Yn yr adran hon, ceir astudiaethau achos manwl o weithgareddau a gyflawnwyd o dan y fframwaith yn ystod y Chweched Senedd sy'n ymhelaethu ar y canlyniadau a ddisgrifir uchod.

## Rhannu a chaffael arferion gorau yn rhyngwladol

Mae cysylltiadau dwyochrog seneddol yn aml yn deillio o weithgarwch y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd o ran ymweliadau dan arweiniad llefarwyr (mewnol ac allanol). Mae'r ymweliadau hyn yn arwain at gysylltiadau parhaus ar lefel wleidyddol ac ar lefel swyddogion.

Yn dilyn ymweliad Llefarydd a Dirprwyaeth Senedd Daleithiol Western Cape (WCPP – De Affrica) â'r Senedd yn 2022, trefnwyd rhaglen gymorth i fentora’r Senedd Daleithiol wrth iddi geisio sefydlu Senedd Ieuenctid. Darparodd swyddogion Senedd Ieuenctid Cymru yn y Senedd sesiynau hyfforddi rhithwir cynhwysfawr i'r Senedd Daleithiol i rannu profiad y Senedd, gan dynnu sylw at yr hyn a weithiodd yn dda a'r gwersi a ddysgwyd.

Mae Gwasanaethau Busnes yr Aelodau yn y Senedd hefyd wedi cynghori Senedd Seland Newydd ynghylch sut rydym yn cefnogi ein Haelodau.

Ymhlith yr ymweliadau mewnol a groesawyd gan y Llywydd yn ystod y Senedd hon mae:

- Y Llefarydd Masizole Mnqasela a Dirprwyaeth o Senedd Daleithiol Western Cape (WCPP) (Mai 2022)
- Seán Ó Fearghaíl, Ceann Comhairle (Iwerddon) (Mawrth 2024)
- Dirprwyaeth o’r Assemblée Nationale du Québec, dan arweiniad y Llefarydd, Mme. Nathalie Roy ACC (Mehefin 2024)
- Y Gwir Anrhydeddus Josep Rull, Llefarydd Senedd Catalwnia a'i ddirprwyaeth (Rhagfyr 2024)
- Pat Weir, Llefarydd Senedd Queensland (Mai 2025)
- Y Seneddwr Sue Lines, Llywydd Senedd Awstralia (Mai 2025)

- Yr Anrhydeddus Ben Franklin ACD, Llywydd Cyngor Deddfwriaethol De Cymru Newydd (Gorffennaf 2025)

## Gweithgarwch dan arweiniad Aelodau – hybu arloesedd y Senedd

Yn ogystal â'r cyfleoedd datblygu i Aelodau a chyfleoedd i gaffael sgiliau a gwybodaeth gan gydweithwyr rhyngwladol, mae Aelodau o'r Senedd hefyd wedi sicrhau bod ganddynt hwy a'r Senedd lais pwysig mewn trafodaethau sy'n ymwneud â'r heriau y mae seneddau a democratiaeth yn gyffredinol yn eu hwynebu.

### Rhwydwaith LHDT+ Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR)

Cynhaliodd y Senedd ddigwyddiad lansio Rhwydwaith LHDT+ BIMR. Dyma oedd y Rhanbarth CPA cyntaf i sefydlu rhwydwaith seneddol LHDT yn ffurfiol. Gwnaeth Aelodau o'r Senedd sbarduno'r fenter hon i sicrhau llwyfan ar gyfer deialog a chydweithio.

Cymerodd Adam Price AS rôl y Cadeirydd dros dro a chynrychiolodd Hannah Blythyn AS y Senedd yn fforwm agoriadol rhwydwaith LHDT+ BIMR hefyd.

*"Parliamentarians in the CPA British Islands and Mediterranean Region as well as across the Commonwealth have a unique opportunity: to champion inclusive policies, defend democratic institutions and amplify the voices of those most at risk." Adam Price AS*

### Y Senedd yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad 2024

Cynrychiolodd y Llywydd, Elin Jones AS, y Senedd yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad 2024. Dyma'r tro cyntaf i Lywydd y Senedd fod yn bresennol yn un o'r Cynadleddau blynyddol hyn.

Defnyddiodd y Llywydd y platfform ar ôl cael gwahoddiad i draddodi un o'r prif areithiau i sôn am gadw menywod mewn gwleidyddiaeth. Cyfeiriodd y Llywydd at faterion fel iechyd menywod o ran y mislif a'r menopos a'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol fel arf i ymosod ar fenywod. Yn yr un modd, traddododd Rhun ap Iorwerth AS, a oedd hefyd yn gynrychiolydd yn y

ddirprwyaeth, araith ar Gryfhau Gwydnwch Democrataidd mewn Oes o Newyddion Ffug.

## Cawcws Menywod

Cyfrannodd sefydlu **Cawcws Menywod y Senedd** yn ystod y Senedd hon elfen ryngwladol ychwanegol at waith y Senedd.

Mae nifer o Aelodau benywaidd yn chwarae rhan weithredol mewn rhwydweithiau rhyngwladol, ac mae enw da rhyngwladol y Cawcws yn parhau i dyfu. Gwelwyd diweddariadau ar ein gwaith yng nghyfnodolyn Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, The Parliamentarian, a mynegodd dirprwyaethau rhyngwladol ddiddordeb mewn clywed gan ein haelodau.

Mae’r Cawcws wedi cymryd rhan mewn nifer o ymweliadau â’r Senedd eleni, wrth i ddirprwyaethau ymweld â’r Senedd i geisio dysgu am brofiadau seneddwragedd yng Nghymru a rhannu arferion da o ran annog menywod i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth a chadw menywod mewn gwleidyddiaeth. Cyfarfu aelodau'r Cawcws yn ddiweddar â dirprwyaethau a oedd yn ymweld â’r Senedd o Senedd Ffederal Canada a’r Assemblée Nationale du Québec i gymharu gweithgarwch Cawcysau, seneddau sy’n ystyriol o deuluoedd, a mesurau cydraddoldeb rhywedd.

Mae Cawcws Menywod y Senedd hefyd wedi cyfrannu at drafodaethau ynghylch sefydlu cawcysau mewn seneddau eraill.

## Cynhadledd Deallusrwydd Artiffisial

Roedd dros 200 o seneddwyr a staff o wahanol rannau o’r byd yn bresennol mewn cynhadledd ar “Rôl Senedd wrth Lunio Dyfodol Deallusrwydd Artiffisial Cyfrifol” yn Kuala Lumpur.

Yn dilyn proses ymgeisio gystadleuol ymhlith yr Aelodau drwy weithrediaeth cangen CPA y Senedd, cynrychiolwyd y Senedd gan Hannah Blythyn AS ac Adam Price AS. Canolbwyntiodd y cynrychiolwyr ar y materion a ganlyn:

- Dod â safbwynt Cymreig penodol i drafodaethau am sgiliau, crebwyll dynol a gwydnwch democrataidd yn oes deallusrwydd artiffisial.

- Cysylltu gwersi byd-eang â gwaith y Senedd ei hun ar lywodraethiant deallusrwydd artiffisial a chynllun AI Cymru Llywodraeth Cymru. Gwnaeth ein dirprwyaeth gyfraniadau dylanwadol drwy sicrhau bod argymhelliad yn cael ei ychwanegu at y cyfathrebiad lle’r oedd seneddau yn ymrwymo i rannu adnoddau a chydweithio gyda'r bwriad o gefnogi seneddwyr a staff o ran gwaith craffu, drafftio deddfwriaeth a pholisi.

“I senedd fach fel ein Senedd ni, sy’n weithgar yn y gofod digidol, mae hyn o bosibl yn drawsnewidiol: mae'n cynnig llwybr at dechnoleg o ansawdd uchel na allem yn realistig ei hadeiladu ar ein pennau ein hunain, tra’n cynnal rheolaeth gyhoeddus, safonau moesegol a hygyrchedd dwyieithog.”

“**Adroddiad ar gynhadledd Rôl Senedd wrth Lunio Dyfodol Deallusrwydd Artiffisial Cyfrifol**”

Cyflwynodd yr Aelodau adroddiad cynhwysfawr (linc) gydag argymhellion i'w rhoi ar waith drwy'r Comisiwn a hefyd o ran cryfhau’r gwaith craffu ar ddeallusrwydd artiffisial ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Roedd y gynhadledd hon yn ddilyniant i gynhadledd flaenorol ar Ddeallusrwydd Artiffisial a Thwyllwybodaeth: cynhadledd ‘**Democratiaeth yn oes ffugiadau dwfn**’ ym mis Mehefin 2024, a fynychwyd gan Lee Waters AS.

Drwy gymryd rhan mewn cyfleoedd rhyngwladol, mae'r Aelodau’n cyfrannu at ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth a thrafodaethau, yn benodol o safbwynt seneddol, sydd o fudd i'r Senedd ac a fydd yn ddylanwadol o ran sut y bydd y Comisiwn yn bwrw ymlaen â’i ddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial.

## Cynnal digwyddiadau ymgysylltu rhyngwladol yn y Senedd

Mae'n bwysig bod digwyddiadau o arwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol yn cael eu denu i ystad y Senedd er mwyn rhoi llwyfan i'r Senedd ac i Gymru ac er mwyn dangos democratiaeth Cymru.

### Cynhadledd BIMR

Ym mis Mehefin 2025, cynhaliwyd cynhadledd ryngwladol fawr yn y Senedd. Roedd dros 40 o Aelodau etholedig o 10 o Ganghennau'r Rhanbarth, Arsylwyr Rhyngwladol o Western Cape a Québec yn ogystal â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, Stephen Twigg, yn bresennol yng Nghynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR) y Senedd.

Roedd cynhadledd BIMR y Senedd yn cynnwys sesiynau llawn ynghyd â gweithdai ar nifer o bynciau, gan gynnwys:

Profiad Senedd Ieuenctid Cymru

Cefnogi Llesiant ac Iechyd Meddwl Seneddwyr

Pwysigrwydd lleisiau LHDT+ mewn seneddau

Sut mae seneddwyr modern yn ymgysylltu mewn tirwedd ddigidol sy'n esblygu, a

Gweithredu, Hyfforddi a Goruchwylio Deallusrwydd Artiffisial yn effeithiol mewn Seneddau

Clywodd y cynrychiolwyr gan siaradwyr arbenigol o Gymru a rhannau eraill o’r byd. Chwaraeodd Aelodau o’r Senedd ran weithredol yn y gynhadledd ac roedd ganddynt blatfformau amlwg ynddi.

Roedd y Gynhadledd yn gyfle gwych i ddangos arloesedd y Senedd ac i gyfnewid gwybodaeth a phrofiad â seneddau gwahanol. Elfen arall bwysig o’r gynhadledd oedd bod y cynrychiolwyr wedi cael cyfle i brofi a mwynhau'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig. (linc i'r adroddiad)

## Gwaith ar rwydweithiau'r DU a'r UE

Mae Comisiwn y Senedd yn cefnogi Aelodau o'r Senedd i gymryd rhan mewn dau rwydwaith allweddol rhwng y DU a'r UE – Grŵp Cyswllt y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau, a Chynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar godi materion allweddol sydd o bwys i Gymru, meithrin rhwydweithiau i ddylanwadu ar drafodaethau parhaus a chasglu tystiolaeth i lywio gwaith craffu'r Senedd ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

-Cynhaliodd y Senedd gyfarfod cyntaf y DU o Grŵp Cyswllt y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau. Daeth y cyfarfod ag arweinwyr lleol a rhanbarthol o wahanol rannau o'r UE a'r DU i'r Senedd ac roedd yn gyfle i ddangos gwaith y Senedd. Cynhaliodd y Senedd hefyd, ar y cyd â Phwyllgor y Rhanbarthau, gyfarfod o'r Grŵp Cyswllt yn Nhŷ Ewrop yn Llundain ym mis Tachwedd 2025.

-Gwahoddwyd Alun Davies AS fel rhan o Grŵp Cyswllt Pwyllgor y Rhanbarthau i annerch Cyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel. Dyma'r tro cyntaf i aelod o'r Grŵp Cyswllt o'r DU gael gwahoddiad i wneud hynny ac roedd yn blatfform ar gyfer rhannu materion sydd o bwys i'r Senedd â channoedd o gynrychiolwyr.

-Mae Aelodau o'r Senedd wedi mynychu chwe chyfarfod o Gynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE. Maent wedi gwneud gwaith ar y cyd â deddfwrfeydd datganoledig eraill i wella'r rôl a roddir i Aelodau datganoledig yn y corff hwn. Mae Aelodau o'r Senedd bellach yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i annerch Cyfarfodydd Llawn y Cynulliad ar bynciau fel masnach, diwylliant, cydweithredu ar yr hinsawdd ac ynni, cynlluniau cyfnewid i bobl ifanc a rheoleiddio deallusrwydd artiffisial a chydweithredu digidol.

-Arweiniodd y Dirprwy Lywydd ddirprwyaeth i Frwsel ym mis Mawrth 2025 i dynnu sylw at waith y Senedd ar faterion sy'n ymwneud â'r DU a'r UE, gan gynnwys cyfle i'r ddirprwyaeth roi tystiolaeth i Bwyllgor Economaidd a

Chymdeithasol Ewrop ar flaenoriaethau ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE a nodwyd yng ngwaith y Senedd.

## Gwaith pwyllgorau'r Senedd

Bu gwaith ar faterion rhyngwladol yn rhan allweddol o waith y pwyllgorau yn y Chweched Senedd. Mae canolbwyntio ar gydgysylltu gweithgarwch rhyngwladol â busnes perthnasol y Senedd o dan y fframwaith wedi creu cyfleoedd newydd i'r pwyllgorau hybu eu gwaith ar y llwyfan rhyngwladol.

- Mae'r Senedd wedi croesawu ac wedi hwyluso ymweliadau rheolaidd â'r Senedd gan Lysgennad yr UE i'r DU a Llysgenhadon o Aelod-wladwriaethau'r UE. Mae'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn cynnal cyfarfodydd rhwng Cadeiryddion y Pwyllgorau ac Aelodau o'r Senedd yn rhwydweithiau'r DU a'r UE yn ystod yr ymweliadau hyn, er mwyn darparu llwybrau ychwanegol i rannu blaenoriaethau'r pwyllgorau yn uniongyrchol â sefydliadau'r UE ac er mwyn i'r Llysgenhadon allu rhannu gwybodaeth a diweddariadau'n uniongyrchol ag Aelodau o'r Senedd.

- Mae gwaith ar y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon wedi bod yn enghraifft allweddol o weithgarwch rhyngwladol cydgysylltiedig. Ym mis Medi 2024, aeth dirprwyaeth o Aelodau, dan arweiniad y Dirprwy Lywydd, ar ymweliad rhyngwladol â Dulyn. Roedd hyn yn gyfle i gryfhau ymhellach y berthynas rhwng y Senedd a'r Oireachtas, ac i nodi meysydd o ddiddordeb cyffredin a meysydd y gellid cydweithredu ynddynt o bosibl yn y dyfodol. Daeth yr ymweliad yn sgil ymweliad y Ceann Comhairle â'r Senedd ym mis Mawrth 2024, lle bu'n trafod cydweithredu pellach rhwng y Senedd a'r Oireachtas â'r Llywydd. Linc i'r adroddiad

- Mae'r Seneddau wedi parhau i ymgysylltu, sy'n dangos pwysigrwydd hynny o safbwynt strategol. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi pwysleisio ymhellach werth ychwanegol cynrychiolaeth BIPA y Senedd a gweithgareddau cysylltiedig. Bydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd yn cyflwyno adroddiad

ar flaenoriaethau ar gyfer y berthynas hon yn y dyfodol cyn diwedd y Senedd.

Yn 2025, arweiniodd y Dirprwy Lywydd ddirprwyaeth draws-bwyllgor o'r Senedd i Stuttgart, i ymweld â Landtag (Senedd Daleithiol) Baden Württemberg. Cynhaliodd y ddirprwyaeth gyfarfodydd â phwyllgorau cyfatebol ar faterion yn ymwneud â'r amgylchedd, newid hinsawdd ac ynni, materion economaidd, twristiaeth a materion rhyngwladol ac Ewropeaidd. Trafododd y ddirprwyaeth y cysylltiadau helaeth rhwng Cymru a Baden-Württemberg. Cyfarfu'r ddirprwyaeth â chynrychiolwyr un o gwmnïau ynni mwyaf yr Almaen, y mae ei brosiectau ar hyn o bryd yn cynnwys fferm wynt alltraeth arfaethedig oddi ar arfordir gogledd Cymru. Yn ogystal, bu'r ddirprwyaeth yn ymweld â ffatri Mercedes-Benz a Phrifysgol Stuttgart i ddysgu sut maen nhw'n defnyddio deallusrwydd artiffisial a chyfrifiadura perfformiad uchel yn eu prosiectau. Linc i'r adroddiad

Arweiniodd y Llywydd ddirprwyaeth a oedd yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Wlad yr Iâ. Cyfarfu'r ddirprwyaeth â Llefarydd Senedd Gwlad yr Iâ ac Arlywydd Gwlad yr Iâ. Cynhaliwyd cyfarfodydd ag Aelodau o Senedd Gwlad yr Iâ gan gynnwys pwyllgorau cyfatebol i drafod heriau cyffredin o ran polisi mewn meysydd fel iechyd, yr amgylchedd a seilwaith. Linc i'r adroddiad.